O F F E R Y N N A U S T A T U D O L
C Y M R U

2007 Rhif 3163 (Cy.274)

TAI, CYMRU

Gorchymyn Deddf Safleoedd Carafanau 1968 (Diwygio) (Cymru) 2007

NODYN ESBONIADOL

(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Gorchymyn)

Mae'r Gorchymyn hwn yn diwygio'r diffiniad o "*caravan*" yn adran 13(2) o Ddeddf Safleoedd Carafanau 1968 ("Deddf 1968")

Mae adran 13 ("*twin-unit caravans*") o Ddeddf 1968 yn eithrio o'r diffiniad o "*caravan*" yn Rhan 1 o Ddeddf Safleoedd Carafanau a Rheoli Datblygu 1960 strwythurau dwy-uned a ddylunwyd neu a addaswyd i bobl fyw ynddynt sy'n cynnwys dim mwy na dwy adran a adeiladwyd ar wahân ac a ddylunwyd i gael eu rhoi at ei gilydd ar y safle gyda bolltau, clampiau neu ddyfeisiadau tebyg, ac y mae modd, pan fyddant wedi cael eu rhoi wrth ei gilydd, eu symud yn ffisegol ar hyd y ffordd o un man i fan arall ac sydd â'u mesuriadau yn mynd y tu hwnt i fesuriadau penodedig. Mae gan Weinidogion Cymru y pŵer i wneud gorchymyn sy'n pennu mesuriadau gwahanol i'r rhai hynny a osodir yn Neddf 1968.

Mae'r Gorchymyn hwn, sy'n gymwys i Gymru, yn rhoi, yn lle'r mesuriadau a geir yn adran 13(2) o Ddeddf 1968, fesuriadau sy'n fwy na'r rhai hynny.

Mae asesiad effaith rheoleiddiol wedi'i baratoi mewn cysylltiad â'r Gorchymyn hwn. Gellir cael copi gan Lywodraeth Cynulliad Cymru, y Gyfarwyddiaeth Dai, Uned y Sector Preifat, Rhyd-y-car, Merthyr Tudful, CF48 1UZ (ffôn 01685 729181) neu Housing.Directorate@wales.gsi.gov.uk.

O F F E R Y N N A U S T A T U D O L
C Y M R U

2007 Rhif 3163 (Cy.274)

TAI, CYMRU

Gorchymyn Deddf Safleoedd Carafanau 1968 (Diwygio) (Cymru) 2007

Gwnaed *5 Tachwedd 2007*

Gosodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru *7 Tachwedd 2007*

Yn dod i rym *30 Tachwedd 2007*

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddwyd i'r Ysgrifennydd Gwladol gan adran 13(3) o Ddeddf Safleoedd Carafanau 1968(**1**) ac a freiniwyd bellach ynddynt hwy(**2**) ac wedi ymgynghori â phersonau neu â chyrff yr ymddengys i'r Gweinidogion eu bod yn rhai cysylltiedig yn unol ag adran 13(3) o'r Ddeddf honno, yn gwneud y Gorchymyn canlynol:

Enwi, cychwyn a chymhwyso

1.—(1) Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Deddf Safleoedd Carafanau 1968 (Diwygio) (Cymru) 2007 a daw i rym ar 30 Tachwedd 2007.

(2) Mae'r diwygiadau a wneir gan erthygl 2 yn gymwys o ran Cymru.

(**1**) 1968 p.52.

(**2**) Trosglwyddwyd swyddogaethau'r Ysgrifennydd Gwladol a geir yn Neddf Safleoedd Carafanau 1968 o ran Cymru i Gynulliad Cenedlaethol Cymru yn rhinwedd Gorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S. 1999/672 erthygl 2, Atodlen 1). Cafodd swyddogaethau Cynulliad Cenedlaethol Cymru eu breinio yng Ngweinidogion Cymru yn rhinwedd adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (c.32) a pharagraff 30 o Atodlen 11 iddi.

Diwygio'r diffiniad o "*caravan*" at ddibenion Rhan 1 o Ddeddf Safleoedd Carafanau a Rheoli Datblygu 1960(**1**)

2. Diwygir isadran (2) o adran 13 o Ddeddf Safleoedd Carafanau 1968 ("*twin unit caravans*") fel a ganlyn—

(a) ym mharagraff (a) yn lle "60" a "18.288" rhodder "65.616" a "20" yn eu trefn;

(b) ym mharagraff (b) yn lle "20" a "6.096" rhodder "22.309" a "6.8" yn eu trefn; ac

(c) ym mharagraff (c) yn lle "10" a "3.048" rhodder "10.006" a "3.05" yn eu trefn.

Jocelyn Davies

O dan awdurdod y Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynaliadwyedd a Thai, un o Weinidogion Cymru

5 Tachwedd 2007

(**1**) 1960 p.62.